Athrawes: Miss Hannah Stephens

Cynorthwyydd Dosbarth: Miss Bethan Edwards

Croeso i dudalen blwyddyn 3.

Enw ein dosbarth yw dosbarth *'Crwban y Môr'* ac mae 28 o ddisgyblion yn y dosbarth.

Pwrpas y dudalen hon yw dangos i chi'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth yn flwyddyn 3.

Ar gyfer y tymor hwn bydd dosbarth *'Crwban y Môr'* yn astudio'r thema 'Sir Benfro' o fewn y chwe maes dysgu a phrofiad.

Yn ystod blwyddyn 3 ac wrth i'r disgyblion i symud ymlaen ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd y dysgwyr yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus, dinasyddion

egwyddorol gwybodus, yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog a chyfranwyr mentrus a chreadigol.

Dysgu Adref

Mi fydd dysgu adref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener, disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni erbyn Dydd Mawrth. Mae'r tasgau'n cael eu gosod mewn ffeil electroneg y plant o fewn eu ffeiliau Hwb.

Llyfrau darllen

Rydym yn ceisio darllen gyda'r disgyblion yn ddyddiol felly mae'n hanfodol eu bod nhw'n dod â'u llyfrau darllen bob dydd. Bydd llyfrau yn cael eu newid pan fydd disgybl wedi cyflawni'r llyfr ac yn dangos ei bod wedi deall yr hyn y maent wedi ei ddarllen.

Addysg Gorfforol

Mae sesiynau addysg gorfforol yn cael eu chynnal ar brynhawn Dydd Iau. Disgwylir i'r disgyblion newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. Cit Ymarfer Corff: Crys t (Lliw eu tŷ) siorts/trowser tywyll ac esgidiau ymarfer corff.

*Noder – Yn ystod y cyfnod Covid-19 mae angen i bob plentyn wisgo ei wisg addysg gorfforol i'r ysgol ar ddiwrnod ei sesiwn addysg gorfforol. Ni fydd yr ystafelloedd newid ar agor.

Gwener Gwych

Mae angen hen ddillad ac esgidiau glaw ar eich plentyn pob dydd Gwener. Rydym yn gwneud ystod o weithgareddau yn ystod y prynhawn tu allan beth bynnag fo'r tywydd.